| | | |
|---|---|---|
| **Teitl:**<br>**Title:** | Polisi Camymddwyn Myfyrwyr | |
| **Fersiwn:**<br>**Version** | 1 | |
| **I bwy mae'r Polisi hwn yn berthnasol?**<br>**Who does this Policy Relate to?** | Myfyrwyr / Staff / Myfyrwyr a Staff / Arall (rhowch fanylion)<br>Students | |

1. **Cydraddoldeb ac Amrywiaeth / Equality & Diversity**

| | |
|---|---|
| Dolen at Gam 1 Asesu Effaith (ar Gydraddoldeb a'r Gymraeg): / Impact Assessment Stage 1 (Equality & Welsh) link: | Cymraeg Student Malpractice Policy Impact Assessment Stage 1 |
| *Effaith ar yr Iaith Gymraeg*<br><br>*Mae asesiad effaith wedi'i gynnal ar y polisi hwn i ystyried ei effaith ar yr Iaith Gymraeg yn unol â Safonau'r Gymraeg (94-104) a Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011.* | *Welsh Language Impact*<br><br>An impact assessment has been carried out on this policy to consider its effect on the Welsh Language in accordance with the Welsh Language Standards (94-104) and the Welsh Language (Wales) Measure 2011. |

2. **Adolygu a Chymeradwyo / Review and Approval**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Perchennog y Ddogfen:**<br>**Document Owner:** | VP Quality | | |
| **Ymgynghoriad / Consultation:** | Head of Centre<br>Examinations Manager | | |
| **Dyddiad cymeradwyo / Date Approved** | Cymeradwyaeth y Pwyllgor Mewnol e.e. Grŵp Diogelu / Internal Committee Approval e.g. Safeguarding Group | | *Enw'r Grŵp a'r Dyddiad / Name of group & date* |
| | Pwyllgor Cyfathrebu a Diwylliant / Communications & Culture Committee: | | *06/03/24* |
| | Pwyllgorau'r Bwrdd / Board Committees: | Pwyllgor Archwilio a Risg / Audit & Risk Committee: | - |
| | | Pwyllgor Cwricwlwm a Safonau / Curriculum & Standards Committee | - |
| | | Pwyllgor Cyllid, Pobl a Diwylliant / Finance, People & Culture Committee: | - |
| | Corff Llywodraethu / Governing Body: | | - |

| | |
|---|---|
| **Dyddiad Adolygu:**<br>**Review Date:** | *06/03/27* |

**Tabl Cynnwys**

**Polisi Camymddwyn Myfyrwyr**


| | |
|---|---|
| 1. Cyflwyniad | 2 |
| 2. Diben | 2 |
| 3. Camymddwyn | 3 |
| 4. Defnyddio Deallusrwydd Artiffisial | 4 |
| 5. Osgoi Camymddwyn | 4 |
| 6. Rhoi gwybod am amheuaeth o gamymddwyn ac archwilio i hynny | 5 |
| 7. Sancsiynau | 6 |
| 8. Rhagor o wybodaeth i ymgeiswyr | 6 |
| 9. Cyfeiriadau | 6 |


## 1. Cyflwyniad

1.1. Mae Coleg Cambria wedi ymrwymo i'r safonau uchaf o ansawdd, gonestrwydd, uniondeb ac atebolrwydd. Er mwyn cynnal y safonau hyn, mae'n hanfodol bod staff a myfyrwyr yn deall beth yw camymddwyn, a'r effaith mae'n ei gael ar enw da y Coleg ac uniondeb y cymwysterau mae'n eu darparu ar ran ei Sefydliadau Dyfarnu.

1.2. Mae Coleg Cambria wedi ymrwymo'n llawn i'r rheoliadau a osodwyd gan y Cydgyngor Cymwysterau (JCQ) a'i gyrff Dyfarnu i sicrhau uniondeb y cymwysterau. Bydd y Coleg yn ymchwilio i bob honiad o gamymddwyn neu gamymddwyn honedig ac yn rhoi gwybod i'r Sefydliad Dyfarnu, yn cydweithredu ag unrhyw ymchwiliadau dilynol ac yn cymryd camau yn ôl yr angen. Gall y Coleg, lle profir achosion o gamymddwyn honedig, gymryd camau priodol, a allai gynnwys mesurau disgyblu.

## 2. Diben

2.1. Bydd y Polisi hwn yn sicrhau'r canlynol:

2.1.1. Bod myfyrwyr a staff yn ymwybodol o beth yw camymddwyn a llên-ladrad ymgeiswyr ar gyfer asesiadau arholiad a di-arholiad;
2.1.2. Bod myfyrwyr a staff yn ymwybodol o ddefnydd Deallusrwydd Artiffisial (AI) a'i effaith ar gamymddwyn a llên-ladrad;
2.1.3. Bod myfyrwyr yn ymwybodol o sut i osgoi camymddwyn a llên-ladrad;
2.1.4. Mae myfyrwyr yn ymwybodol o'r camau a gymerir pan ddarganfyddir camymddwyn a llên-ladrad.

## 3. Camymddwyn

3.1. Diffinnir '**camymddwyn**' fel methiant i ddilyn rheolau arholiad neu asesiad. Gall ddigwydd er mwyn cael mantais annheg, ond gallai hefyd ddigwydd oherwydd diffyg ymwybyddiaeth.

3.2. Golygir '**camymddwyn ymgeiswyr**' bod ymgeisydd wedi camymddwyn mewn cysylltiad ag arholiad neu asesiad. Gall hyn ddigwydd pan mae myfyrwyr yn:

- 3.2.1. paratoi a dilysu unrhyw asesiadau dan reolaeth, gwaith cwrs neu asesiadau nad ydynt yn arholiad;
- 3.2.2. cyflwyno gwaith ymarferol;
- 3.2.3. llunio portffolios o dystiolaeth asesu;
- 3.2.4. cymryd rhan mewn arholiadau neu asesiadau allanol.

3.3. Byddai enghreifftiau o **gamymddwyn ymgeiswyr** yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:

- 3.3.1. Gyflwyno gwaith nad yw'n eiddo iddynt;
- 3.3.2. Benthyca gwaith i ymgeiswyr eraill neu ganiatáu i ymgeiswyr eraill gopïo eu gwaith (mae hyn yn cynnwys postio gwaith ar gyfryngau cymdeithasol);
- 3.3.3. Caniatáu i ymgeiswyr eraill gyrchu eu deunydd o ffynonellau annibynnol eu hunain;
- 3.3.4. Cynorthwyo ymgeiswyr eraill i gynhyrchu gwaith;
- 3.3.5. Defnyddio llyfrau, y rhyngrwyd, Deallusrwydd Artiffisial (AI) neu ffynonellau eraill heb gydnabyddiaeth na phriodoliad (llên-ladrad);
- 3.3.6. Cyflwyno gwaith sydd wedi'i airbrosesu gan drydydd parti heb gydnabyddiaeth;
- 3.3.7. Cyflwyno deunydd amhriodol, sarhaus neu anweddus;
- 3.3.8. Gwneud datganiad ffug o ddilysrwydd mewn perthynas â chynnwys portffolio neu waith cwrs;
- 3.3.9. Dinistrio gwaith ymgeisydd arall yn fwriadol;
- 3.3.10. Dynwared: smalio bod yn rhywun arall er mwyn cynhyrchu gwaith i rywun arall neu drefnu i rywun arall gymryd lle rhywun mewn asesiad, prawf neu arholiad;
- 3.3.11. Cyflwyno a/neu ddefnyddio deunydd neu offer anawdurdodedig yn yr ystafell arholiad neu sesiwn asesu, e.e. canllawiau astudio, nodiadau, ffonau symudol, tabledi neu ddyfeisiau electronig tebyg;
- 3.3.12. Ceisio cyfathrebu gyda myfyrwyr eraill yn ystod arholiad;
- 3.3.13. Camddefnyddio neu geisio camddefnyddio deunydd arholiad/asesiad;
- 3.3.14. Defnyddio neu ddosbarthu deunyddiau arholiad sydd wedi'u datgelu heb ganiatâd;
- 3.3.15. Ymddygiad anghwrtais neu aflonyddgar yn ystod arholiad;
- 3.3.16. Methiant i gadw at gyfarwyddiadau neu gyngor a roddir gan asesydd, goruchwylydd, neu Gorff Dyfarnu amodau mewn perthynas ag asesiad, prawf neu arholiad.

3.4. Mae **llên-ladrad** yn ffurf o gamymddwyn a diffinnir fel "copïo heb gydnabod neu atgynhyrchu ffynonellau cyhoeddedig neu gyfeiriadau anghyflawn". Llên-ladrad yw cyflwyno neu ddefnyddio syniadau, gwaith neu eiriau eraill fel rhai'r dysgwr, boed yn ei gyfanrwydd neu ran(nau). Gall hyn gynnwys gwaith celf, graffeg, delweddau, geiriau, gwaith a gynhyrchir gan gyfrifiadur (gan gynnwys ffynonellau AI neu'r Rhyngrwyd), p'un a ydynt wedi'u cyhoeddi ai peidio, gyda neu heb ganiatâd yr awdur a heb gydnabod y ffynhonnell.

- 3.4.1. Byddai llên-ladrad yn cynnwys:
  - 3.4.1.1. copïo dysgwr arall;
  - 3.4.1.2. copïo o lyfrau neu'r we;
  - 3.4.1.3. defnyddio offer Deallusrwydd Artiffisial i gwblhau asesiadau neu rannau ohonynt; aralleirio

3.4.1.4. is-gontractio’r gwaith i rywun arall;
3.4.1.5. cyflwyno'r un darn o waith at ddau ddiben gwahanol;
3.4.1.6. peidio â chydnabod ffynonellau gwybodaeth, gan gynnwys y defnydd o offer deallusrwydd artiffisial;
3.4.1.7. peidio â chynnwys neu ddim yn cynnwys yn llawn yr holl gyfeiriadau a/neu lyfryddiaeth gyda gwaith a gyflwynwyd.

## 4. Defnyddio Deallusrwydd Artiffisial (AI)

4.1. Rhaid i fyfyrwyr gyflwyno gwaith gwreiddiol eu hunain ar gyfer asesiadau. Mae hyn yn golygu sicrhau bod y cynnyrch terfynol yn eu geiriau eu hunain, ac nad yw'n cael ei gopïo na'i aralleirio o ffynhonnell arall megis offer deallusrwydd artiffisial, a bod y cynnwys yn adlewyrchu eu gwaith annibynnol eu hunain.

4.2. Bydd myfyrwyr sy'n camddefnyddio AI fel nad yw'r gwaith y maent yn ei gyflwyno i'w asesu yn waith eu hunain wedi cyflawni camymddwyn, yn unol â rheoliadau'r JCQ, a gallant wynebu cosbau llym.

4.3. Mae enghreifftiau o gamddefnyddio AI yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, y canlynol:
4.3.1. Copïo neu aralleirio adrannau o gynnwys a gynhyrchir gan AI fel nad yw’r gwaith bellach yn waith i’r myfyriwr ei hun;
4.3.2. Copïo neu aralleirio ymatebion cyfan o gynnwys a gynhyrchir gan AI;
4.3.3. Defnyddio AI i gwblhau rhannau o’r asesiad fel nid yw’r gwaith yn adlewyrchu gwaith, dadansoddiad, gwerthusiad neu gyfrifiadau’r dysgwr;
4.3.4. Methu â chydnabod y defnydd o offer AI pan fyddant wedi cael eu defnyddio fel ffynhonnell gwybodaeth;
4.3.5. Cydnabyddiaeth anghyflawn neu wael o offer AI;
4.3.6. Cyflwyno gwaith gyda chyfeiriadau neu lyfryddiaethau anghyflawn neu gamarweiniol yn fwriadol.

4.4. Mae’n rhaid i fyfyrwyr sicrhau bod y gwaith a gyflwynwyd ar gyfer asesiad yn amlwg yn waith gwreiddiol a grëwyd ganddynt. Os caiff unrhyw adrannau o’u gwaith eu hatgynhyrchu’n uniongyrchol o ymatebion a gynhyrchwyd gan AI, rhaid i’r myfyriwr nodi’r elfennau hynny a rhaid iddynt ddeall na fydd hyn yn caniatáu iddynt ddangos eu bod wedi bodloni’r meini prawf marcio yn annibynnol ac felly na fyddant yn cael eu gwobrwyo.

4.5. Rhaid i diwtoriaid ac aseswyr gymryd gwaith i’w asesu yn unig y maent yn ei ystyried yn waith gan y myfyrwyr eu hunain. Lle mae amheuon ynghylch dilysrwydd gwaith myfyrwyr a gyflwynir i’w asesu (er enghraifft, maent yn amau bod rhannau ohono wedi’u cynhyrchu gan AI ond nad yw hyn wedi’i gydnabod), rhaid iddynt ymchwilio a chymryd camau priodol.

## 5. Osgoi Camymddwyn

### 5.1. Arholiadau

5.1.1. Rhoddir cyfarwyddiadau i ymgeiswyr ynghylch rheolau a rheoliadau arholiadau ysgrifenedig, pan fyddant yn cael eu hamserlenni. Mae'r rheoliadau hyn hefyd yn cael eu harddangos y tu allan i'r ystafelloedd arholiad. Rhaid i fyfyrwyr sicrhau eu bod yn darllen ac yn deall y rheoliadau hyn, a dilyn cyfarwyddiadau'r goruchwylydd yn ystod yr arholiad.

5.1.2. Cyn i unrhyw arholiad ddechrau, bydd goruchwylydd yn darllen rheoliadau’r arholiad. Mae’n rhaid i fyfyrwyr sicrhau eu bod yn cymryd sylw o’r goruchwylydd ac yn dilyn y cyfarwyddiadau a roddwyd iddynt. Bydd goruchwylwyr yn sicrhau bod unrhyw ymgeiswyr hwyr yn cael gwybod am y rheoliadau cyn eu gadael i mewn i’r ystafell arholiad.

5.1.3. I gael rhagor o wybodaeth cyfeiriwch at **Bolisi Arholiadau’r Coleg.**

**5.2. Asesiadau Di-arholiad**

5.2.1. Ar gyfer asesiadau di-arholiad mae'n rhaid i bob myfyriwr lofnodi datganiad i gadarnhau bod y gwaith y mae ef/hi yn ei gyflwyno ar gyfer yr asesiad terfynol yn waith a grewyd ganddynt heb gymorth.

5.2.2. Rhaid i bob goruchwylydd lofnodi'r datganiad dilysu ar ôl i'r gwaith gael ei gwblhau yn cadarnhau:

5.2.2.1. mai gwaith yr ymgeisydd dan sylw yn unig yw'r gwaith;
5.2.2.2. bod y gwaith wedi'i gwblhau dan yr amodau gofynnol;
5.2.2.3. bod datganiadau ymgeiswyr wedi'u llofnodi yn cael eu cadw ar ffeil.

5.2.3. I gael rhagor o wybodaeth cyfeiriwch at **Bolisi Asesu Di-Arholiad y Coleg**.

**5.3.** Er mwyn atal **llên-ladrad** bydd tiwtoriaid ac aseswyr yn sicrhau bod myfyrwyr yn:

**5.3.1.** Deall ystyr llên-ladrad a pha gosbau y gellir eu rhoi ar waith;
**5.3.2.** Deall pwysigrwydd cynhyrchu gwaith gwreiddiol eu hunain;
**5.3.3.** Deall yr hyn sy'n dderbyniol a'r hyn sy'n annerbyniol o ran llên-ladrad a defnyddio ffynonellau, gan gynnwys defnyddio gwefannau;
**5.3.4.** Deall risgiau defnyddio AI, a sut i gydnabod ei ddefnydd a beth sy'n cael ei ystyried yn camymddwyn;
**5.3.5.** Deall sut i ddarparu manylion unrhyw lyfrau, gwefannau neu ffynonellau eraill y maent yn eu dyfynnu neu aralleirio;
**5.3.6.** Deall y defnydd o ddyfynodau pan fo ffynonellau'n cael eu dyfynnu'n uniongyrchol (canllaw a awgrymir ar gyfer yr angen i roi eitemau mewn dyfynodau fyddai defnyddio mwy na chwe gair heb eu newid);
**5.3.7.** Lle bo'n briodol, yn cael amser i wneud digon o waith yn y dosbarth dan oruchwyliaeth uniongyrchol i ganiatáu i'r athro ddilysu holl waith pob ymgeisydd yn hyderus;
**5.3.8.** Peidio â chyflwyno gwaith ymgeisydd arall o arholiad blaenorol fel eu gwaith yn yr arholiad cyfredol;
**5.3.9.** Deall na fydd gwaith yr amheuir ei fod yn llên-ladrad yn cael ei dderbyn na'i farcio heb ymchwiliad pellach.
**5.3.10.** Am ragor o wybodaeth, cyfeiriwch at **Bolisi Llên-ladrad y Coleg.**

## 6. Rhoi gwybod am amheuaeth o gamymddwyn ac archwilio i hynny

**6.1.** Mae modd unrhyw un rhoi gwybod i'r coleg am amheuaeth o gamymddwyn drwy anfon e-bost at arholiadau@cambria.ac.uk.

**6.2.** Bydd goruchwylwyr yn rhoi gwybod ar unwaith am unrhyw achosion o amheuaeth o gamymddwyn gan ymgeiswyr yn ystod arholiadau i'r Rheolwr Arholiadau / Arweinydd Tîm ac yn cynnwys adroddiad o'r digwyddiad yn adroddiad yr Oruchwyliaeth.

**6.3.** Bydd tiwtoriaid ac aseswyr yn rhoi gwybod am unrhyw achosion o amheuaeth o gamymddwyn ymgeiswyr ar gyfer asesiadau di-arholiad i'r Rheolwr Arholiadau.

**6.4.** Bydd y Rheolwr Arholiadau yn dilyn trefn y Sefydliad Dyfarnu perthnasol er mwyn rhoi gwybod am amheuaeth o gamymddwyn gan ymgeiswyr ac yn rhoi gwybod i'r Is-bennaeth Ansawdd, Pennaeth y Ganolfan a'r Rheolwr perthnasol, wrth wneud hynny.

**6.5.** Mae Pennaeth y Ganolfan mewn ymgynghoriad â'r Rheolwyr perthnasol a'r Is-bennaeth Ansawdd yn gyfrifol am ymchwilio i amheuaeth o gamymddwyn. Bydd hyn yn cynnwys

rhoi cyfle i'r ymgeisydd ddarparu datganiad. Bydd y Coleg yn cydweithredu â'r Sefydliad Dyfarnu i sicrhau bod unrhyw ymchwiliadau pellach yn cael eu cynnal, yn ogystal â gweithredu unrhyw sancsiynau, os bydd y rhain yn codi.

## 7. Sancsiynau

**7.1.** Os profir camymddwyn, gall y Sefydliad Dyfarnu osod nifer o sancsiynau, yn dibynnu ar ddifrifoldeb yr achos. Gallai'r rhain amrywio o rybudd llafar, diarddel o'r cymhwyster neu arholiad, i gael eich gwahardd rhag sefyll arholiadau neu sefyll cymwysterau am gyfnod penodol o amser. I gael rhagor o wybodaeth, cyfeiriwch at **Bolisïau a Gweithdrefnau Amheuaeth o Gamymddwyn y JCQ.**

**7.2.** Bydd y Coleg yn cydweithredu â'r Sefydliad Dyfarnu i gymhwyso unrhyw sancsiynau a ddyfernir, a gall hefyd gymryd camau disgyblu pellach yn erbyn y myfyriwr. Am ragor o wybodaeth, cyfeiriwch at y **Polisi Disgyblu Myfyrwyr**.

**7.3.** Bydd gan fyfyrwyr yr hawl i apelio yn erbyn unrhyw sancsiynau a roddwyd. I gael rhagor o wybodaeth cyfeiriwch at y polisïau uchod.

## 8. Rhagor o wybodaeth i ymgeiswyr

| | |
|---|---|
| Gwybodaeth JCQ i ymgeiswyr - Gwaith Cwrs | Dogfennau gwybodaeth i ymgeiswyr - Cyd-gyngor Cymwysterau JCQ |
| Gwybodaeth JCQ i ymgeiswyr - Asesiadau Di-arholiad | |
| Gwybodaeth JCQ i ymgeiswyr - Profion ar sgrin | |
| Gwybodaeth JCQ i ymgeiswyr - Arholiadau ysgrifenedig | |
| Gwybodaeth JCQ i ymgeiswyr - Cyfryngau Cymdeithasol | |

## 9. Cyfeiriadau

| | |
|---|---|
| Polisiau a Gweithdrefnau JCQ Amheuaeth o Gamymddwyn | Polisiau a Gweithdrefnau Amheuaeth o Gamymddwyn |
| Canllawiau JCQ - Defnyddio AI mewn asesiadau - Gwarchod Uniondeb y Cymwysterau | Canllawiau JCQ - Defnyddio AI mewn asesiadau - Gwarchod Uniondeb y Cymwysterau - Cyd-gyngor Cymwysterau JCQ |
| Canllawiau JCQ - Llên-ladrad mewn Asesiadau | Llên-ladrad mewn Asesiadau- Cyd-gyngor Cymwysterau JCQ |
| Pearson: Canllawiau Canolfan BTEC i Lên-ladrad | Canllawiau Canolfan BTEC i Lên-ladrad - Cymwysterau Pearson |